RHAN 2 – ERTHYGLAU'R CYFANSODDIAD

Erthygl 4 – Y Cyngor

4.1 Swyddogaethau'r Cyngor

Dim ond y Cyngor fydd yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:-

(a) mabwysiadu a newid trefniadau gweithredol yr Awdurdod a'r Cyfansoddiad hwn, ac eithrio'r rhai sydd yn Erthygl 11.3 (a)

(b) cymeradwyo neu fabwysiadu'r fframwaith polisi, y gyllideb ac unrhyw gais i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas ag unrhyw Drosglwyddiad Tir Tŷ;

(c) Yn amodol ar y weithdrefn frys sydd yn Rheolau'r Weithdrefn Mynediad at Wybodaeth a nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn, gwneud penderfyniadau ar unrhyw fater o ran cyflawni Swyddogaeth Weithredol a gynhwysir yn y Fframwaith Polisi neu'r gyllideb lle mae'r person sy'n gwneud penderfyniadau am wneud penderfyniad mewn modd sydd yn groes i'r Fframwaith Polisi neu'n groes i/neu ddim yn unol yn llwyr â'r gyllideb;

(ch) ethol a symud yr Arweinydd a phenodi a symud aelodau'r Cabinet (nid yr Arweinydd);

(d) Cytuno ar gylch gorchwyl pwyllgorau a/neu eu newid, gan benderfynu ar eu cyfansoddiad a gwneud penodiadau iddynt, ac eithrio pan fo hynny'n cael ei ddirprwyo'n gyfreithiol ac yn ffurfiol;

(f) penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol oni bai bod y penodiad yn Swyddogaeth Weithredol neu wedi'i ddirprwyo gan y Cyngor;

(g) mabwysiadu cynllun lwfans dan Erthygl 2.5;

(h) newid enw'r ardal, gan roi'r teitl henadur anrhydeddus neu ryddid y Ddinas;

(i) gwneud neu gadarnhau penodiad i swydd y Prif Weithredwr;

(j) gwneud, newid, dileu, ail-fabwysiadu neu fabwysiadu is-ddeddfau a hyrwyddo neu wrthwynebu gwneud deddfwriaeth leol neu Filiau personol;

(k) yr holl swyddogaethau dewis yn Rhan 3 y cyfansoddiad hwn y mae'r Cyngor yn penderfynu y dylai ef ei hun ei wneud neu berson neu gorff y mae wedi dirprwyo ei bwerau iddo yn hytrach na'r Cabinet; a

(l) yr holl faterion eraill y dylent gael eu cadw, yn ôl y gyfraith, i'r Cyngor.

4.2 Ystyron

(a) Polisi Fframwaith

Mae'r polisi fframwaith yn golygu'r cynlluniau a'r strategaethau canlynol:-

- Cynllun Gwella Caerdydd;
- "Beth sy'n Bwysig: Strategaeth 10 Mlynedd i Gaerdydd", strategaeth partneriaeth integredig sengl sy'n ymgorffori (i) Strategaeth Gymunedol; (ii) Strategaeth Leihau Trosedd ac Anhrefn; (iii) Cynllun Plant a Phobl Ifanc; a (iv) Strategaeth Iechyd a Lles;
- Cynllun Lles Lleol;
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol;
- Cynllun Datblygu Lleol;
- Strategaeth y Gymraeg;
- Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid;
- Cynllun Corfforaethol;
- Strategaeth Barcio;
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy;
- Datganiad Polisi Tâl;

Ynghyd â chynlluniau a strategaethau eraill o'r fath y gallai'r Awdurdod benderfynu y dylent gael eu mabwysiadu gan y Cyngor fel mater o ddewis lleol.

(b) Cyllideb

Mae'r gyllideb yn cynnwys dyrannu adnoddau ariannol i wahanol wasanaethau a phrojectau, cronfeydd wrth gefn arfaethedig, Sylfaen y Dreth Gyngor, gosod y Dreth Gyngor a phenderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli gofyniad benthyca'r Cyngor, rheoli ei wariant cyfalaf a gosod cyfyngiadau ar drosglwyddo arian.

(c) Trosglwyddo Tir Tai

Mae Trosglwyddo Tir tai yn golygu cymeradwyo neu fabwysiadu ceisiadau (bod ar ffurf drafft neu ddim) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo gwerthu 500 o eiddo neu fwy i berson dan Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 neu werthu tir at ddibenion preswyl pan fo angen cymeradwyaeth dan adrannau 32 neu 43 Deddf Tai 1985.

4.3 Cyfarfodydd y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cynnal tri math o gyfarfodydd:

(a) y cyfarfod blynyddol;
(b) cyfarfodydd arferol;
(c) cyfarfodydd anarferol

a chânt eu cynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefn Cyfarfod y Cyngor, fel y nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

4.4 Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau

Bydd y Swyddog Monitro'n sicrhau bod y manylion yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn; sy'n nodi'r cyfrifoldebau dros swyddogaethau'r Cyngor nad yw'r Cabinet yn gyfrifol drostynt, yn gyfredol.